I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC Rhif 21-50

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mai 2021* |
| *Yn dod i rym* | *29 Mai 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3), 19 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG) 2021.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 29 Mai 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "aelod o staff cymwys" ("*eligible staff member*") yw unigolyn a bennir yng nghyfarwyddyd 5(3);

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Ddeddf (byrddau iechyd lleol);

ystyr "claf GIG" ("*NHS patient*") yw unigolyn y darparodd contractwr gofal sylfaenol wasanaethau GIG iddo yn ystod y cyfnod cymwys;

(**1**) 2006 p. 42.

ystyr "contractwr deintyddol" ("*dental contractor*") yw contractwr GDC neu gontractwr GDS;

ystyr "contractwr GDC" ("*GDS contractor*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn barti i gontract â Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag adran 57 o'r Ddeddf;

ystyr "contractwr GDS" ("*PDS contractor*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn barti i gontract â Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag adran 64 o'r Ddeddf;

ystyr "contractwr GMC" ("*GMS contractor*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn barti i gontract â Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 42 o'r Ddeddf;

ystyr "contractwr GOC" ("*GOS contractor*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, wedi ei gynnwys mewn rhestr offthalmig Bwrdd Iechyd Lleol ac a oedd yn darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**1**);

ystyr "cyfnod cymwys" ("*eligible period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau â 17 Mawrth 2020 ac yn dod i ben â 28 Chwefror 2021;

ystyr "cyfraniadau cynllun pensiwn nad ydynt i gynllun pensiwn y GIG" ("*non-NHS pension scheme contributions*") yw, pan fo'r taliad i aelod o staff cymwys yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn yn cael ei drin fel incwm pensiynadwy i'r unigolyn hwnnw (o dan gynllun pensiwn ac eithrio cynllun pensiwn y GIG), cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai i'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'r taliad hwnnw;

ystyr "Cylchlythyr Iechyd Cymru" ("*Welsh Health Circular*") yw Cylchlythyr Iechyd Cymru â chyfeirnod WHC/2021/015(**2**);

ystyr "Cynllun" ("*Scheme*") yw Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG a sefydlir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 3;

ystyr "cynllun pensiwn y GIG" ("*NHS pension scheme*") yw'r cynllun pensiwn a weinyddir gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG;

ystyr "darparwr AILlC" ("*EHEW provider*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn barti i gontract neu drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y gwasanaeth AILlC ac a oedd hefyd—

(a) wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7

(**1**) O.S. 1986/975.
(**2**) WHC/2021/015.

(cofrestr optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989, neu

(b) yn optegydd corfforedig;

ystyr "darparwr GGGC" ("*LVSW provider*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn barti i gontract neu drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y gwasanaeth GGGC ac a oedd hefyd—

(a) wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7 (cofrestr optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989, neu

(b) yn optegydd corfforedig;

ystyr "darparwr gofal sylfaenol" ("*primary care provider*") yw contractwr deintyddol, contractwr GMC, optegydd GIG neu fferyllydd GIG;

ystyr "didyniadau CThEM" ("*HMRC deductions*") yw unrhyw symiau y mae'n ofynnol i ddarparwr gofal sylfaenol eu talu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ganlyniad i'r taliad i brif swyddog cymwys, aelod o staff cymwys neu locwm cymwys yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "fferyllydd GIG" ("*NHS pharmacist*") yw person a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn cyflawni gwasanaethau GIG ac a oedd—

(a) wedi ei gofrestru yn Rhan 1 o Gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol(**1**) neu yn y gofrestr a gynhelir o dan Erthyglau 6 a 9 o Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976(**2**), neu

(b) yn cynnal busnes fferyllfa fanwerthu yn gyfreithlon yn unol ag adran 69 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(**3**), ac

yr oedd ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr fferyllol o dan reoliad 10 (llunio a chynnal rhestrau fferyllol) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**4**), ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol yn benodol drwy ddarparu cyffuriau;

ystyr "Ffurflen Gais Gweithiwr Locwm" ("*Locum Worker Application Form*") yw'r ffurflen gais yn Atodiad D i Gylchlythyr Iechyd Cymru;

ystyr "GGGC" ("*LVSW*") yw'r gwasanaeth cenedlaethol a elwir Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru sy'n trefnu i ddarparu asesiadau golwg

(**1**) Fe'i cynhelir o dan erthygl 19 (sefydlu a chynnal y Gofrestr a mynediad iddi) o Orchymyn Fferylliaeth 2010 (O.S. 2010/231).
(**2**) O.S. 1976/1213 (G.I. 22).
(**3**) 1968 p. 67.
(**4**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).

gwan a chymorth adsefydlu i gleientiaid ac yn sicrhau y darperir cymhorthion golwg gwan i gleientiaid fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(**1**);

ystyr "gwasanaeth AILlC" ("*EHEW service*") yw Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy'n trefnu i ddarparu archwiliadau iechyd llygaid i ddefnyddwyr y gwasanaeth y mae'n ofynnol iddynt gael archwiliad o'r fath, darparu cyngor i ddefnyddwyr y gwasanaeth hwnnw, atgyfeirio defnyddwyr y gwasanaeth hwnnw ymlaen i wasanaethau pellach a rhoi gwybod iddynt am wasanaethau pellach fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(**2**);

ystyr "gwasanaethau GIG" ("*NHS services*") yw gwasanaethau meddygol sylfaenol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, gwasanaethau offthalmig neu wasanaethau fferyllol (fel y bo'n briodol i'r darparwr gofal sylfaenol perthnasol) a ddarperir yn unol â Rhannau 4 i 7 (yn gynhwysol) o'r Ddeddf fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru;

ystyr "locwm cymwys" ("*eligible locum*") yw unigolyn a bennir yng nghyfarwyddyd 5(4);

ystyr "Model Cymryd Ymlaen yn Uniongyrchol" ("*Direct Engagement Model*") yw'r model o gymryd staff ymlaen sy'n golygu bod y darparwr gofal sylfaenol yn cymryd unigolyn ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau a hefyd yn talu busnes recriwtio am ddewis a fetio'r unigolyn hwnnw;

ystyr "optegydd corfforedig" ("*corporate optician*") yw corff corfforedig sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o gyrff corfforedig a gynhelir o dan adran 9 o Ddeddf Optegwyr 1989(**3**);

ystyr "optegydd GIG" ("*NHS optician*") yw contractwr GOC, darparwr AILlC neu ddarparwr GGGC;

ystyr "Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru" ("*NHS Wales Shared Services Partnership*") yw'r corff a sefydlwyd gan Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**4**), sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas â chydwasanaethau, polisi a strategaeth, a rheoli a

(**1**) 2016 Rhif 10.
(**2**) 2016 Rhif 10.
(**3**) 1989 p. 44.
(**4**) O.S. 2012/1261.

darparu cydwasanaethau i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru;

ystyr "prif swyddog cymwys" ("*eligible principal"*) yw unigolyn a bennir yng nghyfarwyddyd 5(2);

ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" ("*health care professional*") yw unigolyn a oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**1**);

ystyr "taliad bonws COVID-19 y GIG" ("*NHS COVID-19 bonus payment*") yw'r taliad untro a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Mawrth 2021(**2**) ac a amlinellwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre" ("*Velindre University NHS Trust*") yw'r ymddiriedolaeth GIG(**3**) a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**4**).

### Sefydlu Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG

**3.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu, gweithredu ac, fel y bo'n briodol, ddiwygio Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG.

(2) Diben sylfaenol y Cynllun yw galluogi darparwyr gofal sylfaenol a oedd yn cyflenwi gwasanaethau GIG yn ystod y cyfnod cymwys i wneud cais cyfunol am daliadau bonws COVID-19 y GIG ar ran eu prif swyddogion cymwys, ar ran eu haelodau o staff cymwys, ac ar ran locymiaid cymwys, ac i Fyrddau Iechyd Lleol hwyluso'r taliadau hynny.

### Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG

**4.**—(1) Fel rhan o'i Gynllun, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) rhoi'r ffurflen gais am daliad bonws COVID-19 y GIG ar gael i bob darparwr gofal sylfaenol perthnasol;

(b) rhoi'r Ffurflen Gais Gweithiwr Locwm am daliad bonws COVID-19 y GIG ar gael i bob locwm cymwys perthnasol;

---

(**1**) 2002 p. 17.
(**2**) https://llyw.cymru/taliad-bonws-i-staff-y-gwasanaeth-iechyd-gofal-cymdeithasol
(**3**) Gweler adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).
(**4**) O.S. 1993/2838, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/887 (Cy. 176).

(c) galluogi pob darparwr gofal sylfaenol perthnasol i gyflwyno cais am daliad bonws COVID-19 y GIG ar ei ran ef ei hunan (pan oedd y darparwr gofal sylfaenol yn brif swyddog cymwys neu'n bartneriaeth a oedd yn cynnwys o leiaf un prif swyddog cymwys yn ystod y cyfnod cymwys), ar ran ei aelodau o staff cymwys, ac ar ran locymiaid cymwys sy'n hafal i—

(i) £837 fesul prif swyddog cymwys;

(ii) £837 fesul aelod o staff cymwys; a

(iii) £735 fesul locwm cymwys;

(d) asesu pob cais a geir oddi wrth ddarparwr gofal sylfaenol yn erbyn y meini prawf cymhwystra cymwys a bennir yng nghyfarwyddyd 5;

(e) penderfynu pob cais a geir oddi wrth ddarparwr gofal sylfaenol;

(f) hysbysu pob darparwr gofal sylfaenol am ganlyniad ei geisiadau;

(g) gwneud trefniadau talu â darparwr gofal sylfaenol y mae rhaid iddynt ddarparu i'r ceisiadau hynny o fewn ei gais cyfunol y penderfynwyd eu bod yn gymwys yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn gael eu talu i'r darparwr gofal sylfaenol hwnnw fel un taliad bonws COVID-19 y GIG sy'n hafal i—

(i) £837 fesul prif swyddog cymwys;

(ii) £837 fesul aelod o staff cymwys; a

(iii) £735 fesul locwm cymwys.

(2) Pan fyddai gan ddarparwr gofal sylfaenol hawlogaeth i gyflwyno cais i fwy nag un Bwrdd Iechyd Lleol, mae rhwymedigaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan gyfarwyddyd 4 wedi eu cyfyngu i adlewyrchu cyfarwyddyd 5(7).

**Meini prawf cymhwystra**

**5.**—(1) Mae unigolyn yn gymwys i gael taliad bonws COVID-19 y GIG os yw, ym marn y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) yn brif swyddog cymwys yn unol â pharagraff (2),

(b) yn aelod o staff cymwys darparwr gofal sylfaenol yn unol â pharagraff (3), neu

(c) yn locwm cymwys yn unol â pharagraff (4),

ac mae'r darparwr gofal sylfaenol (neu yn achos is-baragraff (b) ac (c), y darparwr gofal sylfaenol perthnasol) yn cydymffurfio â'r amodau yng nghyfarwyddyd 7.

(2) Prif swyddog cymwys yw—

(a) y darparwr gofal sylfaenol (pan fo’r darparwr gofal sylfaenol yn unigolyn), neu

(b) pan fo’r darparwr gofal sylfaenol yn bartneriaeth sy’n cynnwys o leiaf un unigolyn, pob unigolyn sy’n bartner yn y bartneriaeth honno,

ar yr amod mai prif rôl yr unigolyn hwnnw yn ystod y cyfnod cymwys oedd darparu’n uniongyrchol wasanaethau GIG, neu gefnogi darparu’r gwasanaethau hynny, i gleifion GIG y darparwr gofal sylfaenol am o leiaf 4 wythnos yn olynol yn ystod y cyfnod cymwys.

(3) Mae aelod o staff cymwys yn unigolyn a oedd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen yn uniongyrchol gan ddarparwr gofal sylfaenol am o leiaf 4 wythnos yn olynol yn ystod y cyfnod cymwys, gan weithio’r oriau neu’r diwrnodau yn ystod y 4 wythnos hynny a oedd yn ofynnol gan ei gontract cyflogaeth neu ei gontract ar gyfer gwasanaethau, fel—

(a) proffesiynolyn gofal iechyd yr oedd ei brif rôl yn golygu darparu gwasanaethau GIG yn uniongyrchol i gleifion GIG y darparwr gofal sylfaenol, neu

(b) cyflogai i’r darparwr gofal sylfaenol yr oedd ei brif rôl yn golygu cefnogi’n uniongyrchol gyflenwi gwasanaethau GIG i gleifion GIG y darparwr gofal sylfaenol, ac a oedd yn darparu’r cymorth hwnnw yn y lleoliad y cafwyd y gwasanaethau GIG hynny gan y cleifion GIG hynny.

(4) Mae locwm cymwys yn broffesiynolyn gofal iechyd a oedd wedi ei gymryd ymlaen fel locwm yn ystod y cyfnod cymwys gan un neu ragor o ddarparwyr gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau GIG i gleifion GIG y darparwyr gofal sylfaenol hynny mewn lleoliad yng Nghymru am o leiaf 8 sesiwn pedair awr, pan fo’r 8 sesiwn hynny wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod cymwys, ond nid oes rhaid i bob un o’r 8 sesiwn gael eu cymryd ymlaen gan yr un darparwr gofal sylfaenol.

(5) Mae aelod o staff cymwys neu brif swyddog cymwys yn parhau i fod yn gymwys i gael taliad bonws COVID-19 y GIG pe bai, yn ystod y cyfnod cymwys, wedi bodloni’r meini prawf a bennir gan baragraff (2) neu (3) pe na bai—

(a) ar Absenoldeb Arbennig COVID-19,

(b) yn gwarchod oherwydd COVID-19,

(c) ar absenoldeb salwch,

(d) ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir, neu

(e) ar absenoldeb arbennig.

(6) Nid yw unigolyn yn gymwys i gael taliad bonws COVID-19 y GIG os oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, yn bodloni paragraff (2) neu (3) dim ond yn rhinwedd—

(a) bod yn staff asiantaeth (gan gynnwys y rheini a gymerwyd ymlaen o dan fodel Cymryd Ymlaen yn Uniongyrchol), ac eithrio locymiaid cymwys,

(b) bod yn Gadeirydd bwrdd,

(c) bod yn aelod anweithredol neu annibynnol o'r bwrdd,

(d) ei fod wedi ei gymryd ymlaen o dan drefniant sy'n dod o fewn rheolau CThEM ynghylch gweithio oddi ar y gyflogres (IR35),

(e) bod yn weithiwr a dalwyd ar sail "ffi", ac eithrio locymiaid cymwys,

(f) bod yn fyfyriwr clinigol ar leoliad di-dâl,

(g) bod ar seibiant gyrfa,

(h) bod mewn rôl y mae wedi ei ddiswyddo ohoni wedi hynny ac eithrio am fod y swydd wedi ei dileu, oherwydd salwch neu (yn achos contractau tymor penodol) am fod y tymor penodol hwnnw wedi dod i ben,

(i) bod mewn rôl y mae'n cael ei dalu amdani drwy gwmni gwasanaethau personol, neu

(j) bod yn gyflogai i is-gontractwr darparwr gofal sylfaenol ar unrhyw lefel, neu'n weithiwr a gymerwyd ymlaen gan is-gontractwr darparwr gofal sylfaenol ar unrhyw lefel.

(7) Yn y Cyfarwyddyd hwn, ystyr "prif rôl" yw'r rôl y mae'n treulio mwy na 50% o'i oriau gwaith o dan gontract yn ei chyflawni.

(8) Pan all fod gan ddarparwr gofal sylfaenol neu unigolyn cymwys hawlogaeth i wneud mwy nag un cais, pa un ai i un neu ragor o Fyrddau Iechyd Lleol, nid yw'r darparwr gofal sylfaenol hwnnw neu'r prif swyddog cymwys hwnnw (ac aelodau o staff cymwys a locymiaid cymwys y darparwr gofal sylfaenol) yn gymwys i gael taliad bonws COVID-19 y GIG os yw wedi bod (neu os bydd) yn destun cais arall naill ai i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw neu i Fwrdd Iechyd Lleol arall.

### Talu Taliad Bonws COVID-19 y GIG

**6.**—(1) Bydd darparwr gofal sylfaenol yn cael taliad awtomatig yn seiliedig ar nifer y ceisiadau y penderfynwyd eu bod yn gymwys i gael taliad bonws COVID-19 y GIG gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 5.

(2) Mae unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â pharagraff (1) yn dod yn ddyledus—

(a) yn achos contractwr GDC, ar y dyddiad nesaf pan fydd Taliad Gwerth Contract Blynyddol Misol taladwy y contractwr GDC yn dod yn

ddyledus yn unol â’r Datganiad perthnasol ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer y GDC;

(b) yn achos contractwr GMC, ar y dyddiad nesaf pan fydd Taliad Misol Swm Craidd y contractwr GMC yn dod yn ddyledus yn unol â’r Datganiad perthnasol ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer y GMC;

(c) yn achos contractwr GOC, ar y dyddiad nesaf pan fydd ad-daliad misol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol y contractwr GOC yn dod yn ddyledus yn unol â’r Datganiad o Dâl;

(d) yn achos fferyllydd GIG, ar y dyddiad nesaf pan fydd y fferyllydd GIG yn cael unrhyw daliadau eraill sy’n ddyledus o dan y Tariff Cyffuriau;

(e) yn achos contractwr GDS, ar y dyddiad nesaf pan fydd Taliad Gwerth Cytundeb Blynyddol Misol taladwy y contractwr GDS yn dod yn ddyledus yn unol â’r Datganiad perthnasol ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer y GDS; ac

(f) yn achos—

(i) unrhyw ddarparwr gofal sylfaenol arall, neu

(ii) pan na fydd “dyddiad nesaf” ar gyfer taliadau i’r contractwr GDC, i’r contractwr GMC, i’r contractwr GOC, i’r fferyllydd GIG neu i’r contractwr GDS o dan is-baragraffau (a) i (e) am fod y contract perthnasol, y trefniant perthnasol neu’r cofrestriad perthnasol wedi dod i ben ers diwedd y cyfnod cymwys,

heb fod yn hwyrach nag 8 wythnos gan ddechrau â’r dyddiad y mae’r darparwr gofal sylfaenol yn cyflwyno cais i’r Bwrdd Iechyd Lleol, neu fel y caiff ei gytuno fel arall rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a’r darparwr gofal sylfaenol.

(3) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau y cedwir cofnodion priodol mewn cysylltiad ag unrhyw daliadau awtomatig a geir ac a delir yn unol â pharagraff (1) a bod gan bob taliad o’r fath drywydd archwilio eglur.

## Amodau sydd ynghlwm wrth Daliad Bonws COVID-19 y GIG

**7.**—(1) Nid yw taliad bonws COVID-19 y GIG o dan ddarpariaethau’r Cynllun ond yn daladwy os yw darparwr gofal sylfaenol yn bodloni’r amodau a ganlyn—

(a) mae’r darparwr gofal sylfaenol yn cyflwyno ei gais o fewn y cyfnod sy’n dechrau â 12 Mehefin 2021 ac yn dod i ben â 30 Medi 2021;

(b) mewn cysylltiad â phob unigolyn y mae cais am daliad bonws COVID-19 y GIG wedi ei wneud ar ei ran o dan y Cynllun, mae'r darparwr gofal sylfaenol sy'n gwneud y cais wedi rhoi'r canlynol i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, drwy'r ffurflen gais am daliad bonws COVID-19 y GIG—

(i) enw'r unigolyn,

(ii) rhif Yswiriant Gwladol yr unigolyn,

(iii) cadarnhad bod yr unigolyn y mae cais yn cael ei wneud ar ei ran, yn ystod y cyfnod cymwys, yn bodloni'r meini prawf cymhwystra yng nghyfarwyddyd 5, a

(iv) cadarnhad y bydd y darparwr gofal sylfaenol yn talu i'r unigolyn y mae wedi gwneud cais ar ei ran bob swm a geir mewn cysylltiad â chais yr unigolyn hwnnw (minws unrhyw ddidyniadau CThEM neu unrhyw gyfraniadau cynllun pensiwn nad ydynt i gynllun pensiwn y GIG) ar y dyddiad nesaf y trefnwyd i brif swyddog cymwys, aelod o staff cymwys neu locwm cymwys gael ei dalu gan y darparwr gofal sylfaenol, neu heb fod yn hwyrach na 6 wythnos ar ôl i'r darparwr gofal sylfaenol gael taliad yn unol â chyfarwyddyd 6, pa un bynnag yw'r cynharaf;

(c) o ran y darparwr gofal sylfaenol—

(i) ni chaiff ond gwneud un cais ar ei ran ef ei hunan (neu ar ran unrhyw brif swyddogion cymwys sy'n ffurfio'r darparwr gofal sylfaenol) o dan y Cynllun, a

(ii) ni chaiff dalu'r swm a delir i'r unigolyn y gwneir cais ar ei ran yn lle unrhyw daliadau eraill y byddai'r unigolyn hwnnw fel arall wedi eu cael; a

(d) mae'r wybodaeth a roddwyd gan y darparwr gofal sylfaenol o dan is-baragraff 7(b) yn gywir a bydd y darparwr gofal sylfaenol yn gwneud taliadau yn unol â'r cadarnhad yn is-baragraff 7(b)(iv).

(2) Rhaid i locymiaid cymwys gyflwyno ffurflen gais Gweithiwr Locwm am daliad bonws COVID-19 y GIG sydd wedi ei chwblhau i'r darparwr gofal sylfaenol y maent yn dymuno i'r darparwr hwnnw wneud y cais ar eu rhan heb fod yn hwyrach na 11 Mehefin 2021.

(3) Mae gan aelodau o staff cymwys a locymiaid cymwys hawlogaeth i gael un taliad bonws COVID-19 y GIG yn unig ac, i'r unigolion hynny a fyddai fel arall wedi bod yn gymwys i gael taliad oddi wrth fwy nag un darparwr gofal sylfaenol, ni fydd y taliad ond yn cael ei dalu i'r darparwr gofal sylfaenol yr oedd yr aelod o staff cymwys wedi ei gyflogi ganddo neu wedi ei gymryd

ymlaen ganddo am y cyfnod hwyaf o amser, ac yn achos locwm cymwys, yr oedd y locwm cymwys yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r 8 sesiwn pedair awr gymhwysol ar ei gyfer, yn ystod y cyfnod cymwys.

(4) Pan oedd prif swyddog cymwys, aelod o staff cymwys neu locwm cymwys, yn ystod y cyfnod cymwys, wedi ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG(**1**) neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i oedolion neu i blant yng Nghymru, bydd taliad bonws COVID-19 y GIG yn cael ei dalu gan yr Ymddiriedolaeth GIG perthnasol, y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol neu'r darparwr gofal cymdeithasol perthnasol ac nid oes gan y prif swyddog cymwys, yr aelod o staff cymwys na'r locwm cymwys hawlogaeth i wneud cais am daliad o dan y Cynllun.

(5) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i ddarparwr gofal sylfaenol sy'n gwneud cais am daliad bonws COVID-19 y GIG am unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol ond y mae ei hangen arno, ac sydd naill ai gan y darparwr gofal sylfaenol neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo gael gafael arni, er mwyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ffurfio barn ynghylch a yw'r unigolyn y gwneir cais ar ei ran yn gymwys i gael taliad o dan ddarpariaethau'r Cynllun.

(6) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol, gadw'n ôl unrhyw daliadau sy'n ddyledus o dan y Cynllun, neu unrhyw ran ohonynt, os yw darparwr gofal sylfaenol yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau hyn.

### Gordaliadau a symiau a gadwyd yn ôl

**8.**—(1) Os yw Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud taliad i ddarparwr gofal sylfaenol yn unol â'r Cynllun ac—

(a) nid oedd gan y darparwr gofal sylfaenol (neu unrhyw unigolyn yr oedd yn gwneud cais ar ei ran) hawlogaeth i gael y taliad cyfan neu ran ohono, pa un ai oherwydd nad oedd ef (neu'r unigolyn perthnasol) yn bodloni'r amodau cymhwystra neu'r amodau hawlogaeth i gael y taliad neu oherwydd i'r taliad gael ei gyfrifo'n anghywir (gan gynnwys pan fo taliad ar gyfrif yn goramcangyfrif y swm sydd i ddod yn ddyledus);

(b) roedd hawlogaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gadw yn ôl y taliad cyfan neu ran ohono oherwydd bod amod sydd ynghlwm wrth y taliad wedi ei dorri, ond ni all wneud hynny oherwydd bod yr arian wedi ei dalu eisoes; neu

(**1**) Fel y'i sefydlwyd gan adran 18 o'r Ddeddf.

(c) mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gael ad-daliad o'r holl arian a dalwyd neu ran ohono,

caiff y Bwrdd Iechyd Lleol adennill yr arian a dalwyd drwy ddidynnu swm cyfatebol o unrhyw daliad sy'n daladwy o dan y Cynllun neu unrhyw daliad arall sy'n daladwy i ddarparwr gofal sylfaenol yn rhinwedd ei fod yn darparu gwasanaethau GIG, a phan na ellir gwneud didyniad o'r fath, mae'n amod o'r taliadau a wneir yn unol â'r Cynllun bod rhaid i'r darparwr gofal sylfaenol dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol y swm cyfatebol hwnnw.

(2) Pan fo hawlogaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff (1) i gadw yn ôl daliad cyfan neu ran ohono oherwydd bod amod talu wedi ei dorri, a bo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud hynny neu'n adennill yr arian drwy ddidynnu swm cyfatebol o daliad arall a wneir yn unol ag is-baragraff (1)(b), caiff ad-dalu i'r darparwr gofal sylfaenol, pan fo'n gweld ei bod yn addas gwneud hynny, y swm a gadwyd yn ôl neu'r swm a adenillwyd, os yw'r toriad yn cael ei unioni.

**Tandaliadau a thaliadau hwyr**

**9.**—(1) Os nad yw swm llawn taliad sy'n daladwy o dan y Cynllun wedi cael ei dalu cyn y dyddiad y mae'r taliad yn dod yn ddyledus, unwaith y mae'n dod yn ddyledus, rhaid iddo gael ei dalu'n brydlon oni bai—

(a) bod hyn yn digwydd â chydsyniad y darparwr gofal sylfaenol, neu

(b) bod swm y taliad, neu'r hawlogaeth i gael y taliad, neu unrhyw ran ohono, yn destun anghydfod.

(2) Os nad yw hawlogaeth y darparwr gofal sylfaenol i gael y taliad yn destun anghydfod ond bod swm y taliad yn destun anghydfod, yna unwaith y mae'r taliad yn dod yn ddyledus, wrth aros i'r anghydfod gael ei ddatrys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) talu yn brydlon i'r darparwr gofal sylfaenol swm sy'n cynrychioli'r swm y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn derbyn y mae gan y darparwr gofal sylfaenol hawlogaeth i'w gael o leiaf, a

(b) wedi hynny, talu unrhyw ddiffyg yn brydlon, unwaith bod yr anghydfod wedi ei ddatrys yn derfynol.

(3) Os yw darparwr gofal sylfaenol wedi gwneud cais am daliad, ar ran unigolyn, y mae gan yr unigolyn hwnnw hawlogaeth i'w gael o dan y Cynllun ond na all Bwrdd Iechyd Lleol gyfrifo'r taliad tan ar ôl y dyddiad y mae'r taliad i ddod yn ddyledus oherwydd nad oes ganddo'r wybodaeth y mae ei hangen arno er mwyn cyfrifo'r taliad hwnnw (ar ôl gwneud pob ymdrech resymol i gael yr wybodaeth), mae'r taliad hwnnw (yn lle hynny) i ddod yn ddyledus ar y dyddiad talu nesaf a drefnir sydd ar gael ar ôl y mis pan fydd y Bwrdd Iechyd

Lleol yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen arno er mwyn cyfrifo'r taliad.

### Taliadau ar gyfrif

**10.** Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol a'r darparwr gofal sylfaenol yn cytuno (ond caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dynnu ei gytundeb yn ôl pan fo'n rhesymol gwneud hynny ac os yw wedi rhoi rhybudd rhesymol i'r darparwr gofal sylfaenol ei fod yn bwriadu gwneud hynny), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu i ddarparwr gofal sylfaenol ar gyfrif unrhyw swm sydd—

(a) yn swm taliad, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus o dan y Cynllun, neu

(b) yn ganran gytunedig o swm taliad, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus o dan y Cynllun, ac os yw'r taliad hwnnw yn arwain at ordaliad mewn cysylltiad â'r taliad, mae cyfarwyddyd 8 yn gymwys.

### Gwirio ôl-dalu

**11.** Mae gwirio ôl-dalu(**1**) yn gymwys i unrhyw cais a wneir gan ddarparwr gofal sylfaenol, pa un ai ar ei ran ef ei hunan pan oedd y darparwr gofal sylfaenol yn brif swyddog cymwys neu'n bartneriaeth a oedd yn cynnwys o leiaf un prif swyddog cymwys yn ystod y cyfnod cymwys, neu ar ran aelod o staff cymwys neu locwm cymwys, o dan y Cynllun.

### Datrys anghydfodau

**12.**—(1) Yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cynllun, neu mewn cysylltiad ag ef, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol ac—

(a) yn achos cais a wnaed ar ran prif swyddog cymwys neu aelod o staff cymwys darparwr gofal sylfaenol, y darparwr gofal sylfaenol a wnaeth y cais, neu

(b) locwm y mae cais wedi ei wneud ar ei ran gan ddarparwr gofal sylfaenol,

wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd gyda golwg ar ddatrys yr anghydfod, cyn atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i'w ystyried ac i benderfynu arno yn unol â gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG (neu, pan fo'n gymwys, cyn cychwyn achos llys) a bennir yn is-baragraffau (2) i (15) isod.

(**1**) I gael rhagor o wybodaeth am wirio ôl-dalu, gweler: https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/gwybodaeth-gyffredinol/dilysu-ar-ol-talu/

(2) Mae'r weithdrefn a bennir yn yr is-baragraffau a ganlyn yn gymwys yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cynllun neu mewn cysylltiad ag ef a atgyfeirir at Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (2) anfon at Weinidogion Cymru gais ysgrifenedig i ddatrys anghydfod a rhaid iddo gynnwys y canlynol neu rhaid i'r canlynol ddod gydag ef—

(a) enwau a chyfeiriadau'r partïon i'r anghydfod,

(b) copi o'r cais am daliad bonws COVID-19 y GIG a wnaed o dan y Cynllun, ac

(c) datganiad byr sy'n disgrifio natur ac amgylchiadau'r anghydfod.

(4) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y'i crybwyllir ym mharagraff (2) anfon y cais o dan baragraff (3) cyn diwedd 30 Medi 2022.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar y mater eu hunain neu, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, benodi person neu bersonau i'w ystyried a phenderfynu arno.

(6) Cyn dod i benderfyniad ynghylch pwy a ddylai benderfynu ar yr anghydfod, o dan baragraff (5), rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 7 niwrnod gan ddechrau â'r dyddiad yr atgyfeiriwyd mater sy'n destun anghydfod atynt, anfon cais ysgrifenedig at y partïon i gyflwyno yn ysgrifenedig, o fewn cyfnod penodedig, unrhyw sylwadau y gallant fod yn dymuno eu gwneud ynghylch y mater sy'n destun anghydfod.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru roi, gyda'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (6), i'r parti ac eithrio'r un a atgyfeiriodd y mater ar gyfer datrys anghydfod gopi o unrhyw ddogfen yr atgyfeiriwyd y mater ar gyfer datrys anghydfod drwyddi.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru roi copi o unrhyw sylwadau a geir gan barti i'r parti arall a rhaid iddynt ym mhob achos ofyn (yn ysgrifenedig) i barti y rhoddir copi o'r sylwadau iddo gyflwyno o fewn cyfnod penodedig unrhyw arsylwadau ysgrifenedig y mae'n dymuno eu cyflwyno am y sylwadau hynny.

(9) Ar ôl cael unrhyw sylwadau gan y partïon neu, os yw'n gynharach, ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath a bennir yn y cais a anfonir o dan baragraff (6) neu (8), rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn penderfynu penodi person neu bersonau i wrando ar yr anghydfod—

(a) rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am enw'r person neu'r personau y maent wedi ei benodi neu eu penodi, a

(b) trosglwyddo i'r person neu i'r personau a benodir felly unrhyw ddogfennau a geir gan y partïon o dan baragraff (3), (6) neu (8).

(10) At ddiben cynorthwyo'r dyfarnwr i ystyried y mater, caiff y dyfarnwr—

(a) gwahodd cynrychiolwyr o'r partïon i ymddangos gerbron y dyfarnwr i gyflwyno sylwadau llafar naill ai gyda'i gilydd neu, gyda chytundeb y partïon, ar wahân, a chaiff ddarparu ymlaen llaw i'r partïon restr o faterion neu gwestiynau y mae'r dyfarnwr yn dymuno iddynt roi ystyriaeth arbennig iddynt, neu

(b) ymgynghori â phersonau eraill y mae'r dyfarnwr yn ystyried y bydd eu harbenigedd yn helpu wrth iddo ystyried y mater.

(11) Pan fo'r dyfarnwr yn ymgynghori â pherson arall o dan baragraff (10)(b), rhaid i'r dyfarnwr hysbysu'r partïon yn unol â hynny yn ysgrifenedig a, phan fo'r dyfarnwr yn ystyried y gallai canlyniad yr ymgynghoriad effeithio'n sylweddol ar fuddiannau unrhyw barti, rhaid i'r dyfarnwr roi i'r partïon unrhyw gyfle y mae'r dyfarnwr yn ystyried ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i gyflwyno arsylwadau ar y canlyniadau hynny.

(12) Wrth ystyried y mater, rhaid i'r dyfarnwr ystyried—

(a) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan baragraff (6), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig;

(b) unrhyw arsylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan baragraff (8), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig;

(c) unrhyw sylwadau llafar a gyflwynir mewn ymateb i wahoddiad o dan baragraff (10)(a);

(d) canlyniadau unrhyw ymgynghoriad o dan baragraff (10)(b); ac

(e) unrhyw arsylwadau a gyflwynir yn unol â chyfle a roddir o dan baragraff (11).

(13) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau eraill yn y cyfarwyddyd hwn ac i unrhyw gytundeb gan y partïon, mae gan y dyfarnwr ddisgresiwn eang i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer datrys yr anghydfod i sicrhau bod penderfyniad cyfiawn, diymdroi, darbodus a therfynol yn cael ei wneud ar yr anghydfod.

(14) Rhaid i benderfyniad y dyfarnwr a'r rhesymau drosto gael eu cofnodi yn ysgrifenedig a rhaid i'r dyfarnwr roi hysbysiad o'r penderfyniad (gan gynnwys y cofnod o'r rhesymau) i'r partïon.

(15) Yn y cyfarwyddyd hwn—

ystyr "cyfnod penodedig" yw'r cyfnod hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu yn y cais, sef nid llai na 2, na dim mwy na 4, wythnos gan ddechrau â'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad y

cyfeirir ato, ond caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod rheswm da dros wneud hynny, estyn unrhyw gyfnod o'r fath (hyd yn oed wedi iddo ddod i ben) a, phan fônt yn gwneud hynny, mae cyfeiriad yn y paragraff hwn at y cyfnod penodedig yn gyfeiriad at y cyfnod fel y'i hestynnwyd felly.

**Arfer swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

**13.** Caiff Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre arfer holl swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â gweithredu a gweinyddu'r Cynllun, gydag effaith o'r dyddiad y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym.



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiedig: 28 Mai 2021**